OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 762 (Cy. 182)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffordd Caergybi, Pentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Aros) 2017

*Gwnaed* *18 Gorffennaf 2017*

*Yn dod i rym* *21 Gorffennaf 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A5 o Lundain i Gaergybi, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Gorffennaf 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffordd Caergybi, Pentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Aros) 2017.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(**2**);

mae i "disg parcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion

(**1**) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(**2**) O.S. 2000/1786 (Cy.123) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2014/3082. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(**3**);

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A5 o Lundain i Gaergybi ym Mhentre-du, Betws-y-coed sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gethin hyd at bwynt 43 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno;

mae i "safle perthnasol" ("*relevant position*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 4 o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000.

**Gwahardd Aros**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochr ddeheuol y gefnffordd.

**Esemptiadau**

**4.**—(1) Nid oes dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochr y gefnffordd cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:

(a) i gerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ddarn arall o ffordd, gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darn hwnnw o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw offer cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir yn Neddf Telathrebu 1984(**4**);

(b) i gerbyd gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(c) i gerbyd gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y gefnffordd neu'n gyfagos iddi;

---

(**3**) O. S. 2000/1785 (Cy.122)

(**4**) 1984 (p. 12). diwygiwyd Atodlen 2 gan baragraff 2(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p.21).

(d) i gerbyd gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(e) i gerbyd stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio; neu

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain; neu

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu allan i'w reolaeth; neu

(iv) pan fydd yn gweithredu ar gyfarwyddyd, neu â chaniatâd, cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

(2) Nid oes dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n dangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gofalu am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar ochr y darn o'r gefnffordd am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, a bod awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw â chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar ochr y gefnffordd.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Gorffennaf 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru